**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**12 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Iau, 12 Hydref 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, David Cox, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Brian Lloyd, Mike Reece, Ralph Small a Martin White

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd: Ted Palmer

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Cymunedau a Busnesau, Cyfreithiwr, Arweinydd Tîm Amddiffyn y Cyhoedd, a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**1. COFNODION**

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2017 wedi eu dosbarthu gyda'r agenda.

Cywirdeb
Dywedodd y Cynghorodd Rosetta Dolphin ei bod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod, a gofynnodd i'r cofnodion gael eu newid i adlewyrchu hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

**2. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**3. HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH DIOGELU GORFODOL I BOB GYRRWR A GWEITHREDWR CERBYDAU HURIO PREIFAT / HACNI (AR Y CYD) TRWYDDEDIG**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Diogelu'r Gymuned adroddiad ar gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu gorfodol ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat/Cerbydau Hacni (ar y Cyd)

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at ymchwiliad annibynnol i gam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn Rotherham (1997-2013), a thynnodd yr ymchwiliad hwnnw sylw at bryderon sylweddol ynghylch rheoli diogelu ar gyfer trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat a Thacsis yn Rotherham. Dywedodd bod Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni yn Sir y Fflint yn gyfrifol am gludo pobl bob dydd a bod rhai siwrneiau yn gyfrifol am gludo plant ac unigolion diamddiffyn a fyddai yn achlysurol yn rhan o gontract gyda'r Awdurdod.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm bod yr Adain Drwyddedu eisiau cryfhau arferion diogelu a chodi ymwybyddiaeth a safonau trwy ddarparu gwybodaeth a sgiliau i'r diwydiant Cerbydau Hurio Preifat a Cerbyd Hacni i ddeall ei gyfrifoldebau a pha weithred i'w gymryd os oes ganddynt bryder ynghylch diogelwch neu les unigolion. Fe eglurodd y byddai hyfforddiant diogelu gorfodol yn codi ymwybyddiaeth am ddiogelu plant a phobl diamddiffyn, yn lleihau risg, ac yn darparu dull i yrwyr a gweithredwyr adrodd am ymddygiad amheus. Petai'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynllun yna cynigiwyd cynnal ymgynghoriad gyda Gyrwyr a Gweithredwyr a chyflwyno'r ymatebion i'r Pwyllgor eu hystyried ac i ddod i benderfyniad terfynol.

Wrth ymateb i'r cwestiynau dywedodd yr Arweinydd Tîm y byddai Heddlu Gogledd Cymru yn darparu'r hyfforddiant ond byddai gwahoddiadau a lluniaeth yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod. Fe esboniodd bod trwydded yrru safonol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd) yn cael ei roi am dair blynedd, serch hynny, byddai'r Awdurdod yn annog gyrwyr i fynychu hyfforddiant diogelu o fewn y 12 mis cyntaf. Dywedodd y byddai'n amodol bod deiliaid trwydded newydd yn cwblhau'r cwrs diogelu yn y dyfodol.

Siaradodd Aelodau i gefnogi'r cynnig a chymeradwyo cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth i bob Gyrrwr a Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat/Cerbyd Hacni trwyddedig yn Sir y Fflint.

Wrth ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Glyn Banks y dylai hyfforddiant ar ymwybyddiaeth diogelu fod ar gael i Aelodau, fe eglurodd y Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes bod trafodaethau ynghylch hyfforddiant diogelu wedi cael eu cynnal ym Mwrdd Diogelu Corfforaethol Sir y Fflint, ac y byddai hi'n gwneud ymholiadau ac yn rhoi adborth i'r Pwyllgor am hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu gorfodol i bob Gyrrwr a Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat/Cerbyd Hacni trwyddedig yn Sir y Fflint;

(b) Cefnogi diwygio amodau Gyrrwr a Gweithredwr Hurio Preifat i gynnwys yr amod canlynol:-

Mae'n rhaid i Yrrwr/Gweithredwr gwblhau cwrs hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu pan fydd yr Adain Drwyddedu yn gofyn iddynt fynychu.

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig y bydd Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd) a Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat sydd yn methu'r hyfforddiant diogelu gorfodol yn cael eu riporito i'r Is-bwyllgor Trwyddedu; a

(ch) Chynnal ymgynghoriad gyda Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat/Cerbydau Hacni (ar y cyd) a Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat a bod yr ymatebion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i roi penderfyniad terfynol.

**4. CYFLWYNIAD RHESTR CERBYDAU ADDAS AR GYFER CADEIRIAU OLWYN O DAN DDEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Cyflwynodd Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd adroddiad i hysbysu aelodau am y newidiadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i gael cymeradwyaeth ar gyfer rhestr o gerbydau penodol sydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm wybodaeth gefndir a dywedodd bod y Llywodraeth wedi mynegi ei bod yn disgwyl i Gynghorau gyflwyno a chadw rhestr o gerbydau penodol, a fyddai yn ei dro, yn achosi troseddau am dorri'r dyletswyddau a gyflwynwyd. Roedd yr Adran Drafnidiaeth wedi cyflwyno canllawiau statudol ffurfiol yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno'r rhannau hynny o'r Ddeddf Cydraddoldeb a oedd yn darparu amddiffyniad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm adroddiad am y prif ystyriaethau y manylir arnynt yn yr adroddiad ynghylch y dyletswyddau a gyflwynwyd o dan Adran 165 Deddf Cydraddoldeb 2010, cymorth symudedd, ac eithriad ar gyfer gyrwyr gyda chyflwr penodol. Fe eglurodd na ddylai cerbydau sydd ar y rhestr orfod cario pob cadair olwyn, ond mae'n rhaid iddynt allu cario rhai ohonynt. Cynigiodd yr Adain Drwyddedu i gysylltu â pherchnogion cerbydau a fyddai'n cael eu cynnwys ar y rhestr. Cynigiodd yr Arweinydd Tîm petai'r Pwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno rhestr a fyddai'n cael ei chyhoeddi o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, byddai'r rhestr honno'n cael ei chyhoeddi o fewn chwe mis. Ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai'n drosedd i yrrwr beidio â rhoi cymorth rhesymol i deithwyr mewn cadair olwyn.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Arweinydd Tîm i'r sylwadau ac eglurodd tra bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn yn hysbys o fewn cymunedau lleol, byddai'r rhestr yn ei gwneud yn haws i unigolion weld pa weithredwyr oedd yn darparu'r gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo cyflwyno rhestr o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn, a chyhoeddi'r rhestr honno; a

(a) Bod yr Arweinydd Tîm Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Gwrachod y Gymuned a Busnes, yn gosod dyddiad gweithredu i gyhoeddi rhestr o gerbydau penodol sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

**5. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.30 am)

..................................................

**Cadeirydd**